
## CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH:

## SPECIES ACTION PLAN:



LLun / Photo: Wildlife Trusts South and West Wales




# YSGYFARNOG

*Lepus europaeus,*

### Disgrifiad / Ecoleg

Mae'r ysgyfarnog yn un o ddwy rywogaeth o ysgyfarnogod ym Mhrydain ond dyma'r unig un yng Nghymru. Mae'n anifail eithaf mawr (3-5 kg) ac anifail y nos ydyw gan mwyaf. Bydd yn treulio'r rhan fwyaf o'r dydd yn gorffwys mewn gwaliau, sef pantiau bach yn y llystyfiant. Mae'n well gan yr ysgyfarnog fyw mewn cynefin cymysg, ac yn aml bydd yn byw yn y wlad agored gyda digonedd o wrychoedd, peth gwelltglas hir a chaeau tawel.

### Ei dosbarthiad yng Ngheredigion

Yn ôl ffeiliau y Cofnodydd Mamaliaid Sirol gwelir ysgyfarnogod yng Ngheredigion o hyd ond fel arfer un yn unig a welwch a hynny ar draws ardal weddol helaeth.

#### Ffactorau sy'n ymwneud â'i dirywiad yng Ngheredigion

- Diffyg tir âr a glaswelltir naturiol lle mae bwyd a noddfa
- Darnau helaeth o dir a ddefnyddir ar gyfer un dull o amaethu (ffynonellau bwyd yn brin)
- Prinder bwyd ar dir a ddefnyddir yn ddwys ar gyfer magu defaid, ac mae'r tir hwnnw'n helaeth iawn
- Prinder tir lle cânt lonydd i ffurfio eu gwaliau
- Torri gwair i wneud silwair gan aflonyddu ar yr ysgyfarnogod pan fyddant yn bridio
- Diffyg sofl tros y Gaeaf a'r bwyd sy'n deillio ohonynt
- Rheolaeth wael dros y gwrychoedd a'r waliau cerrig sy'n cynnig noddfa a bwyd i'r ysgyfarnog
- Cemegau amaethyddol

# BROWN HARE

*Lepus europaeus*

### Description / Ecology

The brown hare is one of two hare species in Britain but the only one in Wales. It is a fairly large animal (3-5 kg) and is largely nocturnal. Much of the day is spent resting in 'forms', shallow hollows in the vegetation. Brown hares prefer a mixed habitat, often open country with plenty of hedges, some long grass and undisturbed fields.

### Distribution in Ceredigion

Records held by the County Mammal Recorder suggest that hares are still seen in Ceredigion but are usually single sightings and over a fairly widespread area.

#### Factors contributing to decline in Ceredigion

- Lack of arable land and natural grasslands that provide food and shelter
- Large areas of land used for a single form of farming (small range of food sources)
- Low food availability in land use for intensive sheep rearing, which is widespread
- Lack of undisturbed land for forms
- Widespread silage cutting disturbs hares during breeding
- Lack of over winter stubble and associated food sources
- Poor management of hedgerows and dry stone walls for shelter and food
- Use of agricultural chemicals
- Shooting and Viral Haemorrhagic Disease (VHD) may contribute
- Predation (increased risk due to the factors above)

- Saethu ac Afiechyd Gwaedlifol Firol (VHD) o bosib
- Mynd yn ysglyfaeth i greaduriaid eraill (perygl yn cynyddu oherwydd y ffactorau uchod)

## Beth sy'n digwydd yn lleol?

Caiff cofnodion lleol eu casglu gan y Cofnodydd Mamaliaid Sirol a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Caiff ffermwyr eu hannog trwy gynlluniau megis *Tir Gofal* i reoli tir mewn modd sy'n fwy llesol i fywyd gwyllt, ac mae hynny'n helpu'r ysgyfarnog ynghyd â nifer o rywogaethau eraill. Mae arolwg cerdyn post ar waith sy'n cynyddu ein dealltwriaeth o'r dosbarthiad lleol.

## Targedau

- Cael gwybodaeth sylfaenol am niferoedd a dosbarthiad yr ysgyfarnog
- Cynnal a chynyddu niferoedd a dosbarthiad yr ysgyfarnog erbyn 2010
- Cynnal ac ymestyn cynefinoedd sy'n addas i ysgyfarnogod erbyn 2010

## Beth allwch chi ei wneud i helpu

Os gwelwch chi ysgyfarnog, rhowch wybod i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (01239 621212). Os ydych yn berchen ar dir, gallech chi ei reoli a'i wneud yn well cartref i ysgyfarnogod.

## Rhagor o wybodaeth

- Tabl camau gweithredu (Cynllun gweithredu'r ysgyfarnog rhan 2) lle mae manylion am weithredu lleol
- Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar gyfer yr Ysgyfarnog (ar gael ar *www.ukbap.org.uk <http://www.ukbap.org.uk>)*
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael *www.ceredigion.gov.uk*)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA *saraha@ceredigion.gov.uk* Ffôn: 01545 570881

**Partner arweiniol** : Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran, Aberteifi SA43 2TB 01239 621212 *l.wilberforce@welshwildlife.org*

**Cynllun gwreiddiol:** Lisa Connaire, Tachwedd 2000

**Cynllun diwygiedig:** Lizzie Wilberforce, YBGDGC, Ionawr 2006

**Cyswllt gyda chynlluniau eraill:** Gwrychoedd hynafol a rhai sy'n llawn rhywogaethau

## What is being done locally?

Local records are collected by the County Mammal Recorder and the Wildlife Trust. Farmers are encouraged by schemes such as *Tir Gofal* to manage land in a more wildlife-friendly manner, which helps hares as well as many other species. A postcard survey is adding to knowledge of local distribution.

## Targets

- Obtain baseline information about hare numbers and distribution
- Maintain and increase hare numbers and distribution by 2010
- Maintain and expand habitat suitable for hares by 2010

## What you can do to help

If you see a hare, report it to the Wildlife Trust of South and West Wales (01239 621212). If you own land, you can manage it to provide a more appealing home for hares.

## Further information

- Actions table (Brown hare action plan part 2) for details of local action
- UK Brown Hare Action Plan (available on *www.ukbap.org.uk*)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on *www.ceredigion.gov.uk)*
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA *saraha@ceredigion.gov.uk* Tel: 01545 570881

**Lead partner:** The Wildlife Trust of South and West Wales, Welsh Wildlife Centre, Cilgerran, Cardigan SA43 2TB 01239 621212 *l.wilberforce@welshwildlife.org*

**Original plan:** Lisa Connaire, November 2000
**Revised plan**: Lizzie Wilberforce, WTSWW, January 2006

**Links to other plans:** Ancient & Species Rich Hedgerows